Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru



# Gweithgareddau Awyr Agored

## Gwella cyfleoedd i fanteisio ar yr awyr agored ar gyfer hamdden cyfrifol

Ymgynghoriad ar gyfer plant a phobl ifanc

## Mae'n bwysig bod yn egnïol mewn bywyd.

Mae mwynhau gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored yn rhan fawr o hyn.

Ni ddylai unrhyw un fod ar ei golled oherwydd tlodi.

**Tlodi –** bod heb ddigon o arian i brynu bwyd, dillad a rhywle diogel i fyw. Mae'n gallu golygu pobl yn methu cyfleoedd y mae eraill yn eu mwynhau.

Mae Llywodraeth Cymru eisiau i bawb allu mwynhau gweithgareddau awyr agored, a hynny mor agos â phosibl at y lle y maen nhw'n byw. Mae hyn yn helpu i weithgareddau fod yn rhad ac am ddim neu'n rhatach.

Mae yna ddeddfau yn barod i wneud yn siŵr ein bod ni'n gallu defnyddio rhai mathau o dir ar gyfer cerdded, a rhwydwaith o lwybrau ar gyfer cerdded, beicio, marchogaeth a gweithgareddau eraill.

**X3** Yn y 10 mlynedd diwethaf rydyn ni wedi treblu swm y tir sydd ar gael yn ôl y gyfraith i'w ddefnyddio ar gyfer adloniant a hamdden.

**Mae'r llyfryn yma'n dweud wrthych chi am newidiadau posibl i'r gyfraith a fydd yn gwella cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau awyr agored i bawb.**

Rydyn ni eisiau gwybod beth yw'ch barn chi ar hyn.



# Gweithgareddau awyr agored

## Yn dda i'ch iechyd

Mae'n lleihau'r risg o glefyd y galon ac yn helpu i golli pwysau.

Mae bod yn yr awyr agored gyda natur o'ch cwmpas hefyd yn dda i iechyd meddwl.

## Yn dda i'ch bywyd cymdeithasol

Mae gweithgareddau awyr agored yn gallu bod yn hwyl. Mae'n ffordd dda i dreulio amser gyda ffrindiau a dysgu sgiliau newydd.

## Yn dda i economi a swyddi Cymru

Mae llawer o ymwelwyr yn dod i Gymru i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored. Mae eu teithiau'n ychwanegu arian a swyddi i gymunedau lleol.

## Yn dda i ddiogelu'r amgylchedd

Pan mae pobl yn treulio amser yn mwynhau natur maen nhw'n dysgu i'w diogelu a gofalu amdani.





# Newid y gyfraith



Mae awdurdodau lleol, ffermwyr a phobl eraill yn dweud bod y deddfau sydd gennym ni ar waith yn anodd i'w deall.

Rydyn ni eisiau newid y gyfraith oherwydd:

**Lleoedd a gweithgareddau** – Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu gwneud y gweithgareddau y maen nhw eisiau eu gwneud yn y lleoedd y maen nhw eisiau eu gwneud.

**Costau ac amser** – Rydyn ni eisiau ei gwneud hi'n haws ac yn rhatach i awdurdodau lleol a ffermwyr ofalu am lwybrau, gwneud yn siŵr eu bod nhw'n cael eu cadw'n glir a diweddaru mapiau.

**Materion eraill** – Weithiau, mae defnyddio tir a dŵr ar gyfer hamdden yn gallu achosi problemau i ffermwyr sy'n gofal am anifeiliaid, ac i fywyd gwyllt. Rydyn ni eisiau gwneud y gyfraith yn fwy eglur fel bod pobl yn gwybod beth y maen nhw'n gallu ei wneud a lle y maen nhw'n gallu ei wneud. Rydyn ni eisiau i bawb fwynhau'r awyr agored yn gyfrifol, mewn ffyrdd sydd ddim yn niweidio bywoliaethau, tirnodau neu'r amgylchedd.



Beth yw'ch barn chi ar y rhesymau yma dros newid y gyfraith?



**Mae gan Gymru lawer o leoedd prydferth i bobl eu mwynhau ac mae'n bwysig ein bod ni'n gofalu amdanyn nhw ar gyfer y dyfodol.**

## Ein Gweledigaeth


- Mwy o bobl yn chwarae rhan mewn gweithgareddau awyr agored ac yn mwynhau natur.
- Gwneud defnydd gwell o'r cyfleoedd a'r lleoedd awyr agored sydd gennym ni yn barod.
- Pawb yn deall eu cyfrifoldebau a'r rhan y maen nhw'n ei chwarae mewn parchu eraill a natur.
- Systemau sy'n helpu i reoli lwybrau'n well.
- Rheolau sy'n helpu i ofalu am lwybrau cyhoeddus mewn ffyrdd y mae pawb yn gallu eu deall.
- Camau i gadw pobl yn ddiogel a diogelu'r amgylchedd, bywyd gwyllt a lleoedd o bwys hanesyddol a diwylliannol.
- Camau i helpu busnesau, a chyfleoedd i rai newydd gychwyn.
- Mwy o gymorth ar gyfer cyfleoedd hamdden awyr agored y mae pawb yn gallu eu mwynhau.




# Heriau – cael pawb i chwarae rhan.

Dylai pawb allu chwarae rhan mewn gweithgareddau awyr agored, lle bynnag y maen nhw'n byw. Mae hyn yn golygu cael lleoedd y mae pobl yn gallu eu mwynhau yn agos at lle maen nhw'n byw, yn enwedig mewn trefi a dinasoedd.

Ond, mae yna heriau y mae pobl yn eu hwynebu sy'n eu rhwystro:




Beth sy'n eich atal chi rhag chwarae rhan?







## Gwahanol fathau o weithgareddau ar y tir

Rydyn ni eisiau dod o hyd i ffyrdd i roi mwy o gyfleoedd i bobl wneud gwahanol weithgareddau mewn mwy o leoedd. Mae hyn yn golygu edrych ar newid rhai rheolau:

**Llwybrau beiciau** – fe fyddai'n rhwydd newid rhai llwybrau troed fel bod beicwyr yn gallu eu defnyddio hefyd.

**Hawliau i ddefnyddio llwybrau ar gyfer marchogaeth** – gellid gwneud mwy o lwybrau'n rhai ar gyfer ceffylau.

**Coetiroedd, llynnoedd a chlogwyni arfordirol** – dydy rhai perchnogion tir ddim eisiau i bobl ddefnyddio'u tir oherwydd eu bod nhw'n pryderu am bwy fyddai i'w feio pe bai yna ddamwain. Fe fyddai newidiadau'n helpu pawb i ddeall y rheolau'n well.

Pa weithgareddau awyr agored y byddech chi'n hoffi cael mwy o gyfleoedd i'w gwneud?

- ☐ Heicio/cerdded
- ☐ Beicio
- ☐ Marchogaeth
- ☐ Dringo
- ☐ Gwersylla
- ☐ Beicio mynydd
- ☐ Rhedeg

neu rywbeth arall

Pa weithgareddau ydych chi'n eu gwneud nawr a pha mor aml?

## Afonydd a dŵr arall

Mae'n gallu bod yn hwyl fawr defnyddio afonydd a llynnoedd. Mae llawer o wahanol grwpiau'n eu defnyddio nhw ond mae hyn weithiau'n gallu achosi problemau. Mae yna anghytuno weithiau ynglŷn â beth y mae pobl yn gallu ei wneud a lle.

Er enghraifft:



*"Mae canŵ-wyr yn aflonyddu ar bysgod ac yn achosi problemau trwy ddifrodi glannau'r afon"*



*"Mae pobl sy'n pysgota'n cadw dyfrffyrdd iddyn nhw eu hunain ac yn atal eraill rhag eu defnyddio a'u mwynhau"*

Fe allai newid y gyfraith helpu pobl i ddeall lle a phryd y maen nhw'n gallu defnyddio afonydd a llynnoedd.

Beth ydych chi eisiau defnyddio afonydd a dŵr arall ar ei gyfer?

- ☐ Nofio
- ☐ Pysgota
- ☐ Cerdded ceunentydd
- ☐ Hwylio
- ☐ Canŵio / Caiacio
- ☐ Padlfyrddio

neu rywbeth arall

Pa weithgareddau ydych chi'n eu gwneud nawr a pha mor aml?





## Yr arfordir a'r môr

Mae gan Gymru rywfaint o'r arfordir mwyaf prydferth yn y byd. Mae pobl yn ei ddefnyddio ar gyfer dringo, arforgampau, nofio, hwylio, syrffio a mwynhau amser ar y traeth.

Rydyn ni wedi buddsoddi arian yn barod mewn llwybrau arfordir newydd i bawb eu mwynhau ond bydd newid y gyfraith yn helpu i egluro beth y gall pobl ei wneud a ble.

Byddwn hefyd yn cydweithio â rhannau eraill o Lywodraeth Cymru i gynllunio ar gyfer gweithgareddau ar yr arfordir ac yn y môr.

Pa mor agos ydych chi'n byw at yr arfordir a'r môr a beth ydych chi'n hoffi ei wneud yno?

Oes yna unrhyw beth rydyn ni heb ei gynnwys?

## Diolch am ddarllen hwn

Anfonwch eich atebion i:
MynediadaHamdden@cymru.gsi.gov.uk

Cangen Tirwedd a Hamdden Awyr Agored
Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Llywodraeth Cymru
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UR

erbyn 2 Hydref 2015







© Hawlfraint y Goron 2015